Ysgol Gynradd Cefneithin,
Heol Y Parc,
Cefneithin,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin.
SA14 7DE



Cefneithin Primary School,
Heol y Parc,
Cefneithin,
Llanelli,
Carmarthenshire.
SA14 7DE

Mrs B Owen
Tel (01269)842061/07507095021

Annwyl Riant/Gofalwr,

Rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd cyfnod atal byr yn cael ei gyflwyno ledled Cymru o 6 o'r gloch ddydd Gwener 23ain o Hydref tan ddechrau dydd Llun 9fed Tachwedd mewn ymgais i adennill rheolaeth dros y coronafeirws.

Mae angen cymryd y camau hyn am bythefnos i achub bywydau ac atal y GIG rhag cael ei lethu.

Bydd yn golygu bod yn rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn, megis ar gyfer ymarfer corff; a rhaid iddynt beidio ag ymweld ag aelwydydd eraill na chwrdd â phobl eraill nad ydynt yn byw gyda nhw o dan do nac yn yr awyr agored. Ni chaniateir unrhyw gynulliadau yn yr awyr agored, megis gweithgareddau Calan Gaeaf neu Noson Tân Gwyllt, neu weithgareddau eraill sydd wedi'u trefnu.

Cadarnhawyd y bydd ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn gallu ailagor fel arfer ar ôl hanner tymor, ddydd Llun 2ail o Dachwedd.

Hoffwn roi sicrwydd ichi eto fod ein hysgol yn ddiogel rhag COVID a bod gennym weithdrefnau llym a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

Os bydd achos cadarnhaol o COVID-19, cymerir camau ar unwaith, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu i nodi unrhyw unigolion y gall fod angen iddynt hunan-ynysu ac atal unrhyw drosglwyddo o fewn yr ysgol.

Bydd teuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael cymorth ariannol dros y gwyliau hanner tymor a bydd y Cyngor Sir yn cysylltu â chi dros y dyddiau nesaf ynghylch unrhyw newidiadau i'r manylion a gyflwynwyd gennych yn flaenorol. Yna, gwneir taliadau cyn gynted â phosibl, ond gofynnir i chi fod yn amyneddgar gan y bydd yn cymryd amser i'w prosesu.

Mae gwybodaeth lawn am y cyfnod atal ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

Sylweddolaf fod hwn yn gyfnod pryderus i deuluoedd a gwerthfawrogaf eich cydweithrediad yn fawr.

Unwaith eto, diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

BOwen